# COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANILAR
a gynhaliwyd ar y 4 Hydref 2016
am 8.00y.h.

**PRESENNOL:- Cynghorwyr:- Dylan Edwards (Cadeirydd), Ada Evans, Ann Tudor, Meic Francis, Richard Davies, John Davies, Caredig Jones, Rowland Jones, Dewi Rattray, Richard Davies & Meirion Davies.**

**YMDDIHEURIADAU:**

**ABSENOLDEBAU:**

Dachraeodd y cyfarfod am 8.00 o'r gloch. Chroesawyd yr aelodau i gyfarfod Miss Hydref gan y Cadeirydd Dylan Edwards.

**152/942 - MATERION YN CODI**

1. Yn anffodus, nid oes unrhyw ymateb wedi eu derbyn oddiwrth Cyngor Ceredigion ynglŷn â grid wrth ymyl mynedfa Llidiardau ar y ffordd Trawscoed.
2. Ni does unrhyw newid i gyflwr y ffordd ar gornel Cefnllwynpiod. Ofynnwyd i'r clerc ysgrifennu eto ynglŷn â hyn.
3. Rhoddwyd diolch gan Cyng. Ann Tudor i bawb a wnaeth helpu dori'r fynwent eleni. Fe roddwyd diolch gan y Cyng. John Davies i Ann Tudor am drefnu'r nosweithiau eleni eto. Rhaid dweud fod y fynwent yn edrych yn arbennig.
4. Diweddariad ar ffordd Castle Hill; mae'n edrych fel bod y Cyngor Sir wedi neud rhywfaint o waith trwsio, ond yn anffodus, nid yw'r 'patch job' yma yn dderbyniol. Ofynnwyd i'r clerc ysgrifennu eto ynglŷn â hyn.

**15/943- LLYTHYRON**

1. Llythyr oddiwrth Cyngor Ceredigion yn ofyn am Ganfaswyr y Gwasanaethau Etholiad.
2. Llythyr gyflwyno oddiwrth Tîm Plismona wledig Aberystwyth. Ofynnwyd i'r Glec anfon gwahoddiad iddynt fynychu unrhyw cyfarfod misol i drafod materion sy'n codi yn y gymuned.
3. Hysbyseb oddiwrth BT a manylion Ymgynghoriad ar Waredu Ffoniau Talu BT.
4. Llythyr wrth Gyngor Ceredigion a manylion Cyfarfod Ymgynghorol 2016. Ofynnwyd i gynrychiolydd o'r cyngor cymuned mynychu'r noson.
5. Nifer o negeseuon e-bost a dderbyniwyd oddi wrth Un Llais Cymru, megis Asset of Community Transfers, Treth Stamp ar dir, Proposal of mergers a.y.b.

**15/944- ARIANNOL**

1. Cyflog y Clerc ar gyfer Miss Hydref, sef £113.27. Cynigwyd i'w dalu gan y Cyng.Ann Tudor ac fe eiliwyd gan y Cyng. Dewi Rattray.
2. 'Certified Annual return & Notice of Conclusion of Audit' ar gyfer Audit 2015-2016 oddiwrth Grant Thornton UK. Bydd anfoneb i'w dilyn, am daliad o £186.00. Fe wnaeth y cynghorwyr cadarnhau fod y swm yma yn foddhaol.
3. Cais oddiwrth Bwyllgor Mileniwm Llanilar, yn ofyn am gyfraniad tuag at Yswiriant Noson Tan Wyllt y pentref sydd am eu cynnal ar Nos Sadwrn 5ed Tachwedd. Cynigwyd i'w dalu

gan y Cyng. Rowland Jones ac fe eiliwyd gan y Cyng.Richard Davies. Roedd y cynghorwyr i gyd yn gytûn a'r penderfyniad yma. Fe waneth y Cyng.Dewi Rattray datgan diddordeb.

**15/945 – CYNLLUNIO**

Nid oes unrhyw gais newydd wedi eu derbyn.

**15/946 - UNRHYW FATER ARALL**

1. Paratoadau Sul Y Cofion, sydd yw cynnal ar ddydd Sul 13 Tachwedd.
2. Dwedwyd fod angen gwaredu ochr y banc wrth ymyl y tro I Llanddeniol ar y B4576. Phasiwyd i'r clerc ysgrifennu at yr Adran Priffyrdd ynglŷn â hyn.
3. Codwyd sylw at gyflwr byrddau hysbyseb yn y pentref. Mi fydd y Cyngor Cymuned yn edrych mewn at ddiweddaru rhain.
4. Atgof oddiwrth y Cadeirydd Dylan Edwards, fod noson cyflwyno'r Peiriant Difib yn cael eu cynnal ar y 14 Hydref. Ofynnwyd i'r Cynghorwyr mynychu'r noson yma os yn bosib.

Fe wnaeth y gyfarfod orffen am 9.25pm